# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 3**

FFURFLENNI TRETH, YMHOLIADAU AC ASESIADAU

**PENNOD 4**

YMHOLIADAU ACC

*Diwygio ffurflen dreth yn ystod ymholiad*

**45 Diwygio ffurflen dreth yn ystod ymholiad er mwyn osgoi colli treth**

(1) Os yw ACC yn dod i'r casgliad, yn ystod y cyfnod y mae ymholiad i ffurflen dreth yn mynd rhagddo—

(a) bod y swm a nodir ar y ffurflen dreth fel swm y dreth ddatganoledig sy'n daladwy yn annigonol, a

(b) ei bod yn debygol, oni bai y diwygir y ffurflen ar unwaith, y bydd treth ddatganoledig yn cael ei cholli,

caiff ACC ddiwygio'r ffurflen dreth er mwyn gwneud iawn am yr annigonolrwydd drwy ddyroddi hysbysiad i'r person a'i dychwelodd.

(2) Os yw'r ymholiad yn un sydd wedi ei gyfyngu gan adran 44(2) i faterion sy'n deillio o ddiwygiad i'r ffurflen dreth, nid yw is-adran (1) yn gymwys ond i'r graddau y gellir priodoli'r annigonolrwydd i'r diwygiad.

(3) Os dyroddir hysbysiad o dan is-adran (1), ni chaiff y person a ddychwelodd y ffurflen dreth ei diwygio mwyach o dan 41.

(4) Rhaid i'r person a ddychwelodd y ffurflen dreth dalu unrhyw swm, neu swm ychwanegol, o dreth ddatganoledig sy'n daladwy o ganlyniad i'r diwygiad cyn diwedd

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir hysbysiad am y diwygiad.

(5) At ddibenion yr adran hon ac adran 46 y cyfnod y mae ymholiad i ffurflen dreth yn mynd rhagddo yw'r cyfnod cyfan—

(a) sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir hysbysiad ymholiad ynghylch y ffurflen dreth, a

(b) sy'n dod i ben â'r diwrnod y cwblheir yr ymholiad (gweler adran 50).